EISTEDDFOD GADEIRIOL MYNYTHO 2019

Cynhaliwyd yr Eisteddfod Gadeiriol flynyddol yn y neuadd brynhawn a nos Sadwrn, Ebrill 13eg. Y Beirniaid oedd: Cerdd a Cherdd Dant – Robat Arwyn, Rhuthun; Llefaru a Rhyddiaith – Anni Llŷn, Sarn; Barddoniaeth – Y Prifardd Guto Dafydd, Pwllheli; Arlunio a Gwaith Llaw – Marian Brosschot, Pwllheli. Yn cyfeilio 'roedd Dafydd Lloyd Jones, Bae Colwyn. Llywydd y Dydd oedd Bethan Griffith, Mynytho. Cafwyd anerchiad ganddi yng nghyfarfod y prynhawn. Yr arweinyddion oedd Gwilym Jones a Netta Pritchard.

Cymerwyd rhan yn Seremonïau Tlysau a'r Cadeirio gan Dilwyn Thomas, Carol Pugh, Fflur Rees Jones, Bethan Dyer, Gwilym Hughes, Carwyn Evans ac Emily a Millie (disgyblion yn Ysgol Foel Gron). Enillwyd y model o Gadair – o waith Huw Owen, Caerffynnon – a hynny am y trydydd tro ym Mynytho, gan Richard Morris Jones, Caernarfon, am gerdd rydd heb fod dros 100 llinell, ar y testun "Ffoi". Nid oedd teilyngdod yng nghystadleuaeth Tlws y Prifardd eleni, ond enillwyd y Tlws dan 21 oed gan Cain Hughes o Foduan, am ddarn o waith ar y testun "Lle i enaid gael llonydd". Mae Cain yn 17 oed, ac yn fyfyrwraig yng Ngholeg Meirion Dwyfor, Pwllheli, yn astudio Seicoleg, Cemeg a Chymraeg. Mae'n gobeithio dilyn gyrfa ym maes Gwyddoniaeth Fforensig. Cyflwynir y Tlws gan Mrs Ann Jones, Pwllheli (gynt o Dwynant, Dinas) er cof am ei phriod, Thomas W Jones. Enillwyd Tlws Einion gan Emyr Wynne Evans, Pwllheli, am un o'i erthyglau yn y gyfres "Modfeddi Meddygol" a gyhoeddir yn "Llanw Llŷn. Rhoddir y wobr am yr erthygl orau, ym marn y beirniad, a ymddangosodd yn y "Llanw" rhwng Medi 2017 a Gorffennaf 2018. Yn beirniadu eleni 'roedd Bet Jones, Rhiwlas, ger Bangor.

Swyddogion Pwyllgor yr Eisteddfod eleni oedd: Llywydd – Gwilym Jones; Is-Lywydd – Bethan Dyer; Trysorydd – John Ellis; Ysgrifennydd – Dilwyn Thomas. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch am bob cymorth a chefnogaeth a dderbyniwyd.

CANLYNIADAU:

Canu

Unawd dan 6 oed: 1 (medal).Nansi, Botwnnog 2.Lois, Sarn 3.Megan, Llangian
Unawd Bl.2 ac iau: 1 (medal).Twm Jones, Llansannan 2.Nanw Jones, Llansannan 3.Cadi Owen, Nefyn a Lisi, Bryncroes
Unawd Bl.3 a 4: 1 (medal).Siwan Fflur Rees, Llangefni 2.Nel Jones, Llansannan 3.Nansi Jones, Llansannan
Unawd Bl.5 a 6: 1 (medal).Manon Grug,Llangefni 2.Beca Dwyryd,Porthmadog 3.Elan Evans,Botwnnog 4.Liam Jones,Y Ffôr
Unawd Merched/Bechgyn Bl.7-9: 1 (cwpan).Fflur Williams, Pwllheli 2. Ela Davies, Mynytho
Unawd Bl.10 a dan 19 oed: 1 (cwpan).Alaw Williams, Pontllyfni
Unawd Gymraeg Agored: 1 (cwpan).Alaw Tecwyn, Rhiw 2.Robin Hughes, Bethel 3.Peter Lane, Mynydd Nefyn
Her Unawd: 1 (cwpan).Robin Hughes, Bethel
Unawd Cerdd Dant Bl.6 ac iau: 1 (medal).Manon Grug, Llangefni 2.Siwan Rees, Llangefni 3.Nansi Jones, Llansannan
Unawd Cerdd Dant Bl.7, 8 a 9: 1 (cwpan).Fflur Williams, Pwllheli
Alaw Werin Bl.6 ac iau: 1 (medal).Elan Evans, Botwnnog 2.Manon Grug, Langefni 3.Cadi Midwood, Morfa Nefyn
Alaw Werin 7, 8 a 9: 1 (cwpan).Fflur Williams, Pwllheli
Cân Werin Agored: 1 (cwpan).Robin Hughes, Bethel 2.Alaw Williams, Pontllyfni 3.Alaw Tecwyn, Rhiw
Deuawd Bl.6 ac iau: 1.Nansi a Nel Jones, Llansannan
Deuawd Cerdd Dant Bl.6 ac iau: 1.Nansi a Nel Jones, Llansannan
Unawd Piano Bl.6 ac iau: 1 (medal).Lea Mererid, Pwllheli
Unawd Piano Bl.7-9: 1 (cwpan).Megan Jones, Llangefni
Unawd allan o Sioe Gerdd dan 25 oed: 1 (cwpan).Alaw Williams, Pontllyfni 2.Ela Davies, Mynytho
Unawd i rai dros 55 oed – unrhyw Emyn Dôn: 1 (cwpan).Brynmor Jones,Caernarfon 2.Hywel Anwyl, Llanbrynmair 3.Merfyn Jones, Pwllheli
Parti Unsain neu Ddeulais: Cydradd 1.Genod a Hogia Alawon Llŷn
Cystadleuaeth Gorawl Cymdeithas Eisteddfodau Cymru: 1 (cwpan). Côr Alawon Llŷn
Sgen Ti Dalent? : 1.Alaw Tecwyn, Rhiw 2.Owain Rhys, Chwilog 3.Merfyn Jones, Pwllheli

Llefaru

Llefaru dan 6 oed: 1 (medal).Lois, Sarn 2.Nansi, Botwnnog 3.Megan, Llangian

Bl.2 ac iau: 1 (medal).Llio Medi, Sarn 2.Nanw Dafydd, Llansannan 3.Cadi Owen, Nefyn
Bl.3 a 4: 1 (medal).Erin Mai, Llangernyw 2.Nansi, Llansannan 3.Siwan Fflur, Llangefni ac Ifan Alun Midwood, Morfa Nefyn
Bl.5 a 6: 1 (medal).Beti Owen, Nefyn 2.Elan Evans, Botwnnog 3.Beca Davies, Llangernyw a Lea Mererid, Pwllheli
Bl.7-9: 1 (cwpan).Fflur Williams, Pwllheli 2.Cadi Davies, Llangernyw
Bl.10 a dan 19 oed: 1 (cwpan).Elin Owen, Nefyn
Dan 25 oed: 1 (cwpan). Owain Rhys, Chwilog
Prif Gystadleuaeth Lefaru: 1 (cwpan).Owain Rhys, Chwilog
Cystadleuaeth Cymdeithas Eisteddfodau Cymru – Perfformio Darn Digri: 1.Hywel Anwyl, Llanbrynmair
Grŵp Llefaru Agored: 1 (tarian). Lleisiau Cafflogion

Llenyddiaeth

Meithrin a Derbyn: 1 (medal). Lara Pearson 2.Elsa Scott 3.Gwilym Davies (y tri o Ysgol Edern)
Bl.1 a 2: 1 (medal).Llio Medi Jones, Sarn 2.Seren Williams 3.Doti Thomas (y ddwy o Ysgol Edern)
Bl.3 a 4: 1 (medal). Ifan Alun Midwood, Morfa Nefyn 2.Beti Thomas 3.Jack Morton Jones (y ddau o Ysgol Edern)
Bl.5 a 6: 1 (medal). Hari Holt, Ysgol Edern 2. Lea Mererid, Pwllheli 3. Cian Jones, Ysgol Edern
Dan 15 oed (Barddoniaeth): 1. Ffion Wood, Abersoch
Dan 16 oed (Rhyddiaith): 1. Bronwen Kennedy, Ysgol Botwnnog 2. Nel Grisial Jones, Llansannan 3. Berian Hughes, Ysgol Botwnnog
Dan 21 oed (Tlws Coffa): 1. Cain Hughes, Coleg Meirion Dwyfor
Darn Llefaru i blant dan 6 oed: 1. Dilys Baker-Jones, Bow Street, Ceredigion
Emyn i blant: 1. Gerald Morgan, Tregaron
Cywydd: 1. Gareth Williams, Neigwl, Botwnnog
Soned: 1. John Parry, Llanfairpwll
Telyneg: 1. Anna E Jones, Abersoch
Englyn: 1. Robin Evans, Caernarfon
Englyn Ysgafn: 1. John Ffrancon Griffith, Abergele
Cystadleuaeth y Gadair: Richard Morris Jones, Caernarfon
Rhyddiaith – Ysgrif: 1. Beryl Griffith, Trefor 2. Gaenor Mai Jones, Pentre'r Eglwys, Rhondda Cynon Taf 3. Carys Briddon, Tre'r Ddôl, Ceredigion a Dilwyn Pritchard, Rachub, Bethesda
Cyfansoddi Tôn: 1. Gwilym Lewis, Caergybi

Arlunio

Meithrin a Derbyn: 1. "Sinderela", Ysgol Abersoch 2. "Robin Goch" 3. Alys Glain Roberts, Chwilog
Bl.1 a 2: 1. Seren Williams 2. Doti Thomas (y ddwy o Ysgol Edern) 3. Hollie Louise Roberts, Mynytho
Bl.3 a 4: 1. Ela Mai Roberts, Efailnewydd 2. Jack Morton Jones, Ysgol Edern 3. Ifan Alun Midwood, Morfa Nefyn
Bl.5 a 6: 1.Magi Thomas,Ysg. Edern 2.Lea Mererid, Ysg. Cymerau, Pwllheli a Kari, Ysg. Foel Gron 3.Cadi Fflur Midwood, Morfa Nefyn ac Anna Williams, Ysg. Edern
Bl.7 ac 8: 1. Tomos Elgan, Pwllheli
I bob oed: 1 (cwpan). Ifan Alun Midwood, Morfa Nefyn a Laela, Ysgol Foel Gron 2. Cadi Fflur Midwood, Morfa Nefyn a Karri, Ysg. Foel Gron 3. Merfyn Jones, Pwllheli

Gwaith Llaw

Meithrin a Derbyn: 1. Lois, Sarn 2. "Bumble Bee" a "Sinderela" 3. "Ungorn" (y tri o Ysgol Abersoch)
Bl.1 a 2: 1.Hywyn Euros, Llangybi 2. "Cadi", Ysgol Foel Gron 3. "Ariel", Ysgol Abersoch
Bl.3 a 4: 1. Ben, Ysgol Foel Gron 2. Ifan Alun Midwood, Morfa Nefyn 3. Millie, Ysgol Foel Gron
Bl.5 a 6: 1. Erin, Ysgol Foel Gron 2. Cadi Fflur Midwood, Morfa Nefyn a _____
I bob oed: 1. Cadi 2. Laela, Ysgol Foel Gron 3. Firmino a Coutihnio, Ysgol Abersoch